## Cynllun Grantiau Bach – Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd a Diod 2024

# Ffurflen Gais

Cynllun disgresiwn yw'r Cynllun Grantiau Bach – Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd a Diod. Nid yw llenwi'r ffurflen yn warant y byddwn yn rhoi i chi'r cymorth y byddwch yn gofyn amdano nac y gallwn gynnig unrhyw gymorth o gwbl i chi ar gyfer eich prosiect.

**Pwysig:** Cyn llenwi'r ffurflen gais hon, darllenwch y Canllawiau **ar ddiwedd y ffurflen** a'r ddogfen 'Canllawiau Ymgeisio am Gyllid y Cynllun'. Gofalwch eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth y bydd y canllawiau a'r ffurflen gais yn gofyn amdani rhag arafu'r broses asesu.

| **Adran 1: Manylion yr Ymgeisydd** | | | |
|---|---|---|---|
| **1.1 Enw a chyfeiriad busnes yr Ymgeisydd** | | | |
| Enw'r busnes | | | |
| Cyfeiriad | | | |
| Cod post | | | |
| Rhif ffôn | | | |
| Cyfeiriad e-bost | | | |
| Gwe-gyfeiriad | | | |
| **1.2 Enw a chyfeiriad cyswllt, os yn wahanol i'r uchod** | | | |
| Enw | | | |
| Cyfeiriad | | | |
| Cod Post | | | |
| Rhif ffôn | | | |
| Rhif ffôn symudol. | | | |
| Cyfeiriad e-bost | | | |
| **1.3 Manylion y Busnes/Sefydliad** | | | |
| Statws | Unig Fasnachwr ☐ | Partneriaeth ☐ | Cwmni Cyfyngedig ☐ |
| Arall *(manylwch)* | | Rhif Cofrestru'r Cwmni | |

| | | |
|---|---|---|
| Menter Gymdeithasol<br>*(nodwch y strwythur cyfreithiol)* | | |
| **Ydy'r busnes wedi'i gofrestru ar gyfer TAW?** | Ydy ☐ | Nac ydy ☐ |
| **Os ydy, nodwch y Rhif Cofrestru** | | |
| Statws Busnes Bach a Chanolig (SME)<br>*(busnes bach/canolig/mawr)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.4 Manylion y Digwyddiad** | | | |
| Teitl | | | |
| Dyddiad neu Amserlen y Digwyddiad / Prosiect | | | |
| Lleoliad y Digwyddiad (os yn gymwys) | | | |
| Nifer y gynulleidfa a ragwelir | | Blwyddyn cynt (os yn gymwys) | |
| Nifer cyflenwyr Bwyd a Diod fydd yn cael eu hyrwyddo neu'n bresennol | | | |
| Dyddiad Sefydlu'r Digwyddiad/Gweithgaredd (os yn gymwys) | | | |
| Ffi mynediad arfaethedig ar gyfer yr ŵyl / digwyddiad | | | |
| Cydweithio ag eraill: | Ydym ☐ | Nac ydym ☐ | |
| Os ydych, manylwch: | | | |
| Cyfanswm y Grant y gofynnir amdano yn adran 3: | | | |

| |
|---|
| **Adran 2: Digwyddiad/Gweithgaredd** |
| **2.1 Manylion bras y digwyddiad** |
| |

**2.2 Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod:**

Bydd y cynllun grant yn cyfrannu at wireddu "Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021 (y Weledigaeth)". Mae'r Weledigaeth yn gosod y nod o 'greu sector bwyd a diod cryf a bywiog yng Nghymru sydd ag enw da ym mhedwar ban byd am ragoriaeth, ac sydd ag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn y byd yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol'.

Dangoswch isod sut y bydd eich prosiect yn cyflawni un neu fwy o'r nodau a ddisgrifir yn y 'Weledigaeth'.

**2.3 Eich cynnig ar gyfer y digwyddiad**

Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos y daw'r arian â mantais amlwg i ddiwydiant bwyd a diod Cymru. Dim ond gweithgareddau fydd yn ychwanegu at werth diwydiant bwyd a diod Cymru fydd yn cael eu cynorthwyo.

Disgrifiwch eich cynigion o ran sut yr ydych am ddangos hyn. Darllenwch adrannau 4 a 5 o Ganllawiau'r Cynllun.

**2.4 Amcanion:**

Amcan y cynllun Grant yw:

- Gwella ymwybyddiaeth ymwelwyr o Fwyd a Diod Cymru a gwella'u cyfleoedd i'w profi;
- Annog busnesau lletygarwch yng Nghymru i ddefnyddio mwy o fwyd a diod lleol;
- Cynyddu presenoldeb Bwyd a Diod Cymru ar fwydlenni ac mewn mannau manwerthu.

Esboniwch isod sut ydych yn cynnig cyfrannu at un neu fwy o'r amcanion hyn. (Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yn rhaid ichi roi tystiolaeth o hyn wrth hawlio).

| **2.5 Cynaliadwyedd tymor hir:**<br>Esboniwch isod sut bydd eich prosiect yn gynaliadwy yn y dyfodol. |
|---|
| |

| |
|---|
| **2.6 Esboniwch sut bydd eich digwyddiad yn sicrhau'r canlyniadau canlynol y mae'r cynllun grant yn gofyn amdanyn nhw:**<br>● Cydweithio rhwng Bwyd a Diod a'r sector lletygarwch/twristiaeth.<br>● Dylai'r prosiect/digwyddiad fod yn rhan o raglen/strategaeth ehangach yn yr ardal/rhanbarth. |
| |
| **2.7 Disgrifiwch unrhyw beth sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â chynaliadwyedd a materion amgylcheddol (*cynlluniau ailgylchu rheoli bwyd a gwastraff).*** Amgaewch eich Polisi Amgylcheddol os oes gennych un. |
| |

| **2.8 Esboniwch sut y byddwch yn ymdrin â'r canlynol:**<br>● Cydraddoldeb ac amrywiaeth<br>● Hygyrchedd<br>● Y Gymraeg – bydd gofyn i chi gynnal safonau'r Gymraeg a sicrhau bod deunyddiau hyrwyddo, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd i gyd yn ddwyieithog.<br><br>Amgaewch bolisïau os oes gennych rai. |
|---|
| |

| **Adran 3: Gwybodaeth ariannol** | | |
|---|---|---|
| **Mae grant o 100% ar gael – O leiaf £2,500, hyd at £15,000** | | |
| **3.1 Y Costau Arfaethedig *(Refeniw)*** | Swm (£) | Cyfanswm y Grant |
| *e.e. Cogydd arddangos* | *200* | *140* |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| **Arian Cyfatebol (gweler Adran 3 o Ganllawiau'r Cynllun)** | | |
| **Cyfanswm y Grant y gofynnir amdano** | | |

| **3.2 Sut bydd y digwyddiad/gweithgaredd yr ydych yn gofyn am grant ar ei gyfer yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol?** |
| --- |
| |

**3.3 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd sicrhau bod y gofynion canlynol yn cael eu cyflawni:**

Sicrhau bod gofynion a safonau deddfwriaethol ac iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'r digwyddiad yn cael eu bodloni.

Rhaid i bob arddangosydd:

- Gadw at y cynlluniau sicrhau ansawdd, sy'n gofyn am o leiaf yr hyn sy'n gyfreithiol ofynnol, neu fwy.
- Gwneud yn well na'r gofynion cenedlaethol o ran Hylendid Bwyd a bydd wedi'i gofrestru gyda'i awdurdod lleol fel busnes bwyd, gyda gradd hylendid bwyd o 4 fan leiaf.
- Sicrhau bod ganddo yswiriant digonol.

## Adran 4: Marchnata

Disgrifiwch sut y caiff y digwyddiad ei hyrwyddo'n lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys ei farchnata ar y cyd â digwyddiadau eraill. Sut byddwch chi'n monitro llwyddiant yr hyrwyddo hwn?

## Adran 5: Crynodeb o'ch cyfrifon diweddaraf

A yw'r ffigurau isod (ticiwch un yn unig):

Yn dod o'r cyfrifon diweddaraf sydd wedi'u cymeradwyo gan eich sefydliad (os yn gymwys) ☐

Yn rhagolygon gan fod eich sefydliad yn llai na 12 mis oed ☐

| | | |
|---|---|---|
| Cyfrifon y flwyddyn yn diweddu: | | |
| Cyfanswm incwm y flwyddyn (A) | £ | |
| Cyfanswm gwariant y flwyddyn (B) | £ | |
| Gwarged neu ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn (A-B) | £ | |
| Cyfanswm cynilon neu arian wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn | £ | |

A yw'ch cyfrifon wedi'u harchwilio gan archwilydd annibynnol? Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

| Adran 6: Digwyddiadau/gweithgareddau cyfredol/newydd |
| --- |
| Disgrifiwch strwythur eich sefydliad a’ch cynlluniau cyfredol a’ch rhai at y dyfodol, gan esbonio’ch gallu a’ch capasiti i’w cyflawni. |
| |

## Adran 7: Datganiad

Rwy'n cadarnhau fod yr wybodaeth rwyf wedi'i rhoi yn y cais hwn, hyd eithaf fy ngwybod, yn gywir ac yn gyflawn. Rwy'n cadarnhau'r amodau canlynol ac yn cytuno hefyd i gadw at y rhai sy'n ymwneud â derbyn fy nghais:-

- Rwy'n cadarnhau nad ydw i nac unrhyw gyfarwyddwr/partner a enwir yn y cais hwn wedi'i gael yn euog o drosedd;
- Rwy'n cadarnhau nad ydw i nac unrhyw gyfarwyddwr/partner a enwir yn y cais hwn erioed wedi bod yn fethdalwr nac yn destun trefniant â chredydwyr;
- Penderfynir ar y prosiect hwn ar ôl ystyried yn llawn yr wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r cais a hefyd ar ôl ystyried blaenoriaethau perthnasol y sector;
- Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi cymorth ychwanegol tuag at gostau sy'n cynyddu'n uwch na'r manylion a'r amcangyfrifon a nodir yn y cais hwn.  Er eich lles chi felly, gofalwch eich bod wedi cyfri'r holl gostau cymwys yn gywir yn y cam ymgeisio;
- Ni fydd Llywodraeth Cymru'n atebol am unrhyw gostau a ysgwyddir gan yr ymgeisydd wrth baratoi, cyflwyno neu asesu'r cais;
- Ceidw Llywodraeth Cymru'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth fel y gwêl yn dda;
- Ceidw Llywodraeth Cymru'r hawl i gyhoeddi manylion y prosiectau y mae wedi'u cynorthwyo;
- Ni fydd digwyddiadau sydd wedi'u canslo am unrhyw reswm yn cael grant ac ni cheir cadw'r cyllid i'w ddefnyddio yn y flwyddyn ganlynol.
- Rwy'n deall y gallai'r wybodaeth a ddarperir yma ac yn y gwaith papur cysylltiedig ei rhannu'n gyfrinachol â chyrff ariannu cyhoeddus eraill a chynghorwyr technegol allanol (*yn ôl y gofyn*).
- Rwy'n deall ac yn cadarnhau, os caiff fy nghais ei dderbyn, bod yn rhaid i bob deunydd ysgrifenedig *(gan gynnwys arwyddion a gwybodaeth ar-lein)* gael ei ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg oni bai ei bod yn afresymol neu'n anghymesur gwneud hynny.

| | |
|---|---|
| Llofnod | |
| Dyddiad | |
| Enw (Print) | |
| Swydd | |

## Adran 8: Rhestr Wirio – Gofalwch eich bod wedi atodi'r canlynol gyda'r cais hwn

| | |
|---|---|
| Y cyfrifon statudol diweddaraf.<br>Digwyddiadau newydd, gan gynnwys rhagolygon llif arian<br>Rhif cofrestru TAW (os yw'n berthnasol) | ☐<br>☐<br>☐ |
| Datganiadau ynghylch:<br>• Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br>• Polisi Cynaliadwyedd<br>• Hygyrchedd<br>• Polisi'r Gymraeg | ☐ |
| Manylion y costau (gan gynnwys manylion unrhyw gyllid cyfatebol) | ☐ |

# Canllaw i Ymgeiswyr

**Mae'r nodiadau canlynol yn esbonio agweddau ar y ffurflen gais rydym yn teimlo bod angen eu hesbonio.**

## 1.0 Manylion yr ymgeisydd

Rhowch enw cyfreithiol llawn yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n ymgeisio a'i rif ffôn yn ystod y dydd. Os yw'n wahanol, rhowch fanylion y prif gyswllt fydd yn delio â'r cais. Cadarnhewch statws y busnes.

Rhowch enw'r digwyddiad a'r amserau h.y. dyddiadau o / tan. Nifer yr ymwelwyr rydych yn eu disgwyl a nifer ymwelwyr y flwyddyn cynt, os yw hynny'n gymwys.

## 2.1 Manylion y Digwyddiad/Gweithgaredd

Rhowch grynodeb o'ch digwyddiad e.e. cefndir, trefniant y digwyddiad, ei amcanion a'i nodau

**2.2** Mae'n bwysig er mwyn gallu sicrhau cyllid yn y dyfodol ein bod yn dangos sut mae Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd yn bodloni amcanion Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod.

Esboniwch pa rai o'r 10 cam allweddol yn y Weledigaeth y bydd eich gŵyl neu ddigwyddiad yn eu cymryd a sut – er enghraifft:

- Adeiladu Rhwydweithiau – adeiladu brand 'Cymreig', cydnabod tarddiad daearyddol cynnyrch, hyrwyddo bwyta'n iach
- Addysgu busnesau – gwerth achrediad, gwerth bod yn rhan o Glwstwr Bwyd Llywodraeth Cymru, gwerth ceisio am wobr bwyd a diod sy'n addas i'r busnes
- Gwaith Teg – Cyflog Byw Cymreig – a yw'r busnesau rydych am eu cael yn eich gŵyl/digwyddiad yn talu Cyflog Byw Cymreig i'w staff? A oes gennych chi'ch hunan bolisi gwaith teg?

**2.3** Rhowch fanylion llawn y cynnig rydych yn gofyn am grant ar ei gyfer.

**2.4** Rhowch fanylion y targedau a'r canlyniadau rydych am eu gweld mor gywir ag y medrwch. Byddwn yn eu defnyddio i fesur llwyddiant y digwyddiad a bydd gofyn i chi roi tystiolaeth eich bod wedi'u sicrhau wrth hawlio. *Bydd ymgeiswyr fydd heb roi'r wybodaeth hon yn cael eu gwrthod.

**2.5** Esboniwch sut bydd eich prosiect yn gynaliadwy yn y dyfodol.

**2.6** Esboniwch sut bydd y digwyddiad yn cyflawni amcanion ehangach y cynllun o ran cyfraniad y gymuned, gwariant yn yr economi leol, yr agenda bwyta'n iach, datblygu twristiaeth bwyd leol, argaeledd bwyd a diod lleol Cymreig, cyfleoedd i fusnesau, hen a newydd.

**2.7** Disgrifiwch yr agweddau cynaliadwy – cynllun ailgylchu'r digwyddiad ac unrhyw weithredu i reoli bwyd gwastraff, yn ogystal â pholisïau perthnasol eraill (er gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen isod

https://businesswales.gov.wales/cy/towards-zero-waste-wales-cy)

**2.8** Disgrifiwch eich polisïau a'ch datganiadau ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Cynaliadwyedd, Hygyrchedd a'r Gymraeg.

## 3.0 Gwybodaeth Ariannol

Bydd angen i chi gyflwyno achos ariannol cryf am gymorth. Byddwn yn helpu prosiectau sy'n gallu dangos bod ANGEN y cymorth ariannol arnynt.

**3.1** Rhowch fanylion yr holl gostau sydd ynghlwm wrth y Digwyddiad.

**3.2** Disgwylir i bob ymgeisydd roi cadarnhad/tystiolaeth o'r cyllid y mae wedi'i gael ar gyfer y digwyddiad.

**3.3** Trafodwch gynaliadwyedd y digwyddiad.

## 4.0 Marchnata

Rhowch fanylion y gwaith marchnata rydych am ei gynnal yn y meysydd rydych yn cyfeirio atynt.

## 5.0 Crynodeb o'ch cyfrifon

Rhowch yr wybodaeth berthnasol.  Rhaid i bob ymgeisydd nodi ei incwm a'i wariant. Rhowch eich rhagolygon ar gyfer y flwyddyn lawn gyntaf os yw'ch sefydliad yn llai na 12 mis oed. Cynhwyswch y swm rydych yn gofyn i'r Cynllun Grantiau Bach – Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd a Diod amdano yn eich rhagolygon.

## 6.0 Digwyddiadau cyfredol/newydd

Rhowch fanylion strwythur eich sefydliad a'ch cynlluniau cyfredol a'ch rhai at y dyfodol. Bydd angen i chi esbonio'ch gallu a'ch capasiti i'w cyflawni.

## 7.0 Datganiad

Darllenwch y datganiad gyda'r Amodau a'r Telerau Cyffredinol cyn llofnodi'ch bod yn eu derbyn.

## 8.0 Rhestr Wirio

Ticiwch y blwch priodol i gadarnhau'ch bod wedi atodi'r wybodaeth berthnasol.

## 9.0 Gwneud cais

E-bostiwch eich cais i'r cyfeiriad hwn:
GwyliauBwyd@llyw.cymru / FoodFestivalsEvents@gov.wales

Rhaid e-bostio'r cais o gyfeiriad e-bost yr ymgeisydd.

## 10.0 Hysbysiad preifatrwydd – Grantiau Llywodraeth Cymru

**Sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant.**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiol gynlluniau grant er mwyn helpu i gyflawni ein polisïau a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu gyllid. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn rhoi cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i gadarnhau pwy ydych chi. Fel rhan o'r gwiriadau hyn, mae'n ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi gydag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y gwnawn ni wrthod darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud

cais amdano, neu roi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol i chi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu o wyngalchu arian, a gall hyn arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth ichi.

Er mwyn asesu cymhwyster, efallai y bydd angen i ni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais gyda'r canlynol.

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaethyddiaeth eraill Llywodraeth y DU
- Awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Awdurdodau Lleol, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Hefyd, mae'n bosibl y gwnawn ni rannu'ch gwybodaeth gyda sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant, yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn rhoi cyngor a chymorth arloesi ar ran Llywodraeth Cymru at ddibenion targedu cymorth yn briodol.

Gall aelod o'r cyhoedd ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath efallai y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Diogelu Data 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y symiau a delir i fuddiolwyr Cymorth Gwledig. Cyhoeddir data am bob buddiolwr ar wefan y gellir chwilio arni, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw'r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â £1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA yn: www.cap-payments.defra.gov.uk

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw'ch data personol am 7 mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, a phob taliad wedi'i wneud. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw'ch manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i weld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch.
- i fynnu ein bod yn cywiro unrhyw beth anghywir yn y data hynny.
- i wrthwynebu neu gyfyngu (o dan amgylchiadau penodol) ar brosesu eich data personol.
- i ofyn (o dan rai amgylchiadau) inni 'ddileu' eich data.
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: dataprotectionofficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421
Gwefan : https://ico.org.uk/

Os oes gennych gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.
https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru

## 11.0 Cadw cofnodion

Mae'n rhaid i chi gadw am bum mlynedd yr holl gofnodion a gwybodaeth sydd eu hangen i ddangos eich bod wedi darparu gwybodaeth gyflawn a chywir a'ch bod wedi cydymffurfio â'ch ymrwymiadau.

Bydd gofyn ichi hefyd:

- Roi unrhyw wybodaeth am eich contract Cynllun Grantiau Bach – Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd a Diod i Lywodraeth Cymru a hynny'n brydlon yn unol â chais Llywodraeth Cymru amdani.
- Gofalu bod cofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall, gan gynnwys data ar gyfrifiadur, am eich contract Grantiau Bach – Gwyliau a Digwyddiadau Bwyd a Diod ar gael i Lywodraeth Cymru, ei swyddogion awdurdodedig a'i hasiantwyr eu gweld. Bydd gofyn ichi ganiatáu i Lywodraeth Cymru gymryd unrhyw ddogfen neu gofnod i wneud copïau neu i godi darnau ohoni/ohono.

## 12.0 Cymorth Ariannol Lleiaf

- Bwriad y grant hwn yw rhoi cymhorthdal i fusnesau trwy gyfrwng Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA).
- Y grant mwyaf y gellir ei roi yw £15,000.

- Os bydd eich busnes yn llwyddiannus ac yn cael cynnig grant, bydd gofyn i chi roi cadarnhad ysgrifenedig nad eir dros drothwy'r MFA o £315,000 dros 3 blynedd. Bydd hyn yn amod o'r Llythyr Cynnig Grant.
- Sylwer bod y rheolau ynghylch cronni yn effeithio ar yr MFA. Mae hynny'n hanfodol i sicrhau bod y DU yn cadw at reolau rhyngwladol. Cronnir cymorthdaliadau'r MFA â'i gilydd a chyda chymorthdaliadau eraill sy'n perthyn i'r categori 'cymorth ariannol lleiaf neu SPEI'. Drwy hynny, cofnodir yr holl eithriadau isel eu gwerth y gallai menter eu derbyn oddi wrth awdurdodau cyhoeddus y DU. Er enghraifft, dylid ystyried y canlynol i gyd yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol:
  • MFA;
  • cymorth SPEI;
  • cymorth a roddir o dan reoliadau Cymorth Gwladol de minimis yr UE naill ai cyn diwedd y cyfnod gweithredu o 31 Rhagfyr 2020 neu ar ôl y dyddiad hwn, os gwneir hynny o dan Brotocol Gogledd Iwerddon; a
  • cymorthdaliadau a roddir fel symiau bychain o gymorth ariannol (SAFA) o dan Erthyglau 364(4) neu 365(3) Cytundeb Masnachu a Chydweithredu y DU-UE ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu ond cyn i'r rhan hon o'r Ddeddf ddod i rym.

- Am ragor o wybodaeth, darllenwch y Statutory Guidance on the UK Subsidy Control Regime